OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### CYCHWYN ACHOSION

***Gwneud apêl neu hawliad***

**Cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos**

**12.**—(1) Rhaid gwneud apêl i'r Tribiwnlys drwy gais ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a rhaid i'r Tribiwnlys ei gael ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau gyda'r dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad yr awdurdod lleol ac o'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad o dan Ran 4 o Ddeddf 1996(**1**).

(2) Mewn perthynas ag apêl neu apêl arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan adran 332BA o Ddeddf 1996(**2**) cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (1), estynnir am dri mis y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw.

(3) Rhaid gwneud hawliad i'r Tribiwnlys drwy gais ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a rhaid i'r Tribiwnlys ei gael ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod a ddatgenir ym mharagraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010(**3**).

(4) Mewn perthynas â hawliad neu hawliad arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan baragraff 6C o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**4**) neu gymodi o dan adran 27(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2006(**5**) cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (1), estynnir am dri mis y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 17, ni chaiff y Tribiwnlys ystyried—

(a) cais apêl oni chychwynnir achos yn unol â pharagraffau (1) a (2);

(b) cais hawlio oni chychwynnir achos yn unol â pharagraffau (3) a (4).

(**1**) *Gweler* Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 2002, rheoliad 5 (cyflwyno dogfennau) (O.S. 2002/152).
(**2**) Mewnosodwyd adran 332BA gan adran 5 o Fesur Addysg (Cymru) 2009.
(**3**) Mae paragraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pennu o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud hawliad i'r Tribiwnlys. Mae is-baragraff (2) yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag achosion, neu achosion arfaethedig, pan gyfeirir yr anghydfod ar gyfer cymodi.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 6C yn Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan O.S. 2011/1651.
(**5**) 2006 p.3; amnewidiwyd adran 27(1) gan baragraff 16 o Atodlen 26 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010; ail-rifwyd paragraff 16 fel paragraff 71 o Atodlen 26 gan baragraff 1(c) o Atodlen 1 i O.S. 2010/2279; diwygiwyd adran 27(1) yn ddiweddarach gan O.S. 2011/1060.